# COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWYD O BELL - TRWY DIMAU MICROSOFT DYDD MERCHER, 23 MEHEFIN 2021, AM 15:00

Presennol

Y Cynghorydd KJ Watts – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| S Aspey | SE Baldwin | TH Beedle | JPD Blundell |
| NA Burnett | MC Clarke | N Clarke | RJ Collins |
| HJ David | P Davies | PA Davies | SK Dendy |
| DK Edwards | J Gebbie | RM Granville | CA Green |
| DG Howells | RM James | B Jones | M Jones |
| MJ Kearn | DRW Lewis | JE Lewis | JR McCarthy |
| D Patel | RL Penhale-Thomas | AA Pucella | JC Radcliffe |
| KL Rowlands | B Sedgebeer | RMI Shaw | CE Smith |
| SG Smith | JC Spanswick | RME Stirman | G Thomas |
| T Thomas | E Venables | SR Vidal | MC Voisey |
| LM Walters | CA Webster | PJ White | A Williams |
| AJ Williams | HM Williams | JE Williams | RE Young |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

T Giffard, A Hussain, JH Tildesley MBE a/ac DBF White

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd |
| Gill Lewis | Pennaeth Cyllid a Swyddog 151 Dros Dro |
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau |
| Michael Pitman | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |
| Mark Shephard | Prif Weithredwr |
| Kelly Watson | Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio |

## 542. DATGAN BUDDIANT

Cyhoeddodd y Cynghorydd C Webster fuddiant personol yn Eitem 7 ar yr Agenda, oherwydd bod ei mab yn derbyn Cludiant i'r Ysgol.

## 543. CYMERADWYO COFNODION

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo bod Cofnodion cyfarfod y Cyngor dyddiedig 24 Chwefror a 10 Mawrth 2021 yn gywir.

## 544. DERBYN CYHOEDDIADAU GAN:

Y Maer

Drannoeth y cyfarfod blynyddol, cefais wahoddiad i fod yn bresennol mewn cyfarfod o bell â Chlwb Ieuenctid KPC. Cynhelir y sgwrs dros baned yma'n rheolaidd i bawb o'r clwb gael dod ynghyd. Roedd yn hyfryd cael cwrdd â'r holl wirfoddolwyr ymroddedig yn rhithiol, a chlywed am y cynlluniau sydd ganddynt ar y gweill - cychwyn cadarnhaol iawn i'm blwyddyn fel Maer.

Wedi hynny, aeth y Dirprwy Faer a minnau i gasglu ein cadwynau swydd mewn seremoni fer breifat ym Mharlwr y Maer gyda fy ngwraig (y Faeres), y Prif Weithredwr a'r Arweinydd.

Yn rhan o'r Wythnos Gwirfoddolwyr, cefais wahoddiad i ymweld â'r Gylchfa yng nghanol tref Pen-y-bont ar Ogwr. Fel y gwyddoch mae'n debyg, canolfan i deuluoedd yw'r Gylchfa a sefydlwyd i gefnogi pob aelod o'r gymuned. Bydd gwirfoddolwyr y ganolfan yn rhoi cymorth ac arweiniad ar amrywiaeth fawr o faterion. Roedd hi'n ddiddorol cael cwrdd â'r staff a chael gwybod sut maent wedi addasu a pharhau â'u gwaith yn ystod y pandemig. Ar fater tebyg, cefais hefyd ymweld a Chanolfan Gofalwyr Pen-y-bont ar Ogwr yn ystod yr Wythnos Gofalwyr, i gwrdd a dweud diolch wrth yr holl staff sy'n gwneud gwaith mor anhygoel drwy gydol y flwyddyn.

Ymhlith digwyddiadau eraill ar fy nghalendr oedd ymweliad â Gwarchodfa Natur Parc Slip fore Sadwrn gyda Iolo Williams, sy'n darlledu'n fyw ar y BBC ac ar ddydd Llun - cinio gyda'r Uchel-Siryf.

O ran fy ngwaith codi arian, rwyf ar ganol trefnu digwyddiadau ac mae gen i ddau ddyddiad amodol ar gyfer eich dyddiaduron.

Dydd Sadwrn 13 Awst - naid awyr ar y cyd â'r Faeres, ym maes awyr Abertawe, a dydd Sadwrn 18 Medi - Her 3 Chopa Cymru, gan obeithio y bydd 2 fws mini o leiaf ar gael ar gyfer oddeutu 20 o gyfranogwyr.

Os hoffech gyfrannu at fy achosion elusennol, gallwch wneud hynny drwy fynd i dudalen y Maer ar wefan CBSPO a chlicio ar y botwm Elusen - bydd hynny'n eich tywys i dudalen gyfrannu. I'ch atgoffa, fy elusennau yw "Lads and Dads" a "Chanolfan Gofalwyr Pen-y-bont ar Ogwr".

<u>Y Dirprwy Arweinydd</u>

Mae gwaith bellach wedi dechrau ar wella'r fynedfa i Stad Ddiwydiannol Village Farm yn y Pîl.

Mae hyn yn cael ei gyflawni cyn y bwriedir agor canolfan ailgylchu gymunedol newydd sbon y Stad yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Er mwyn gwella llif y traffig, osgoi tagfeydd ac atal cerbydau rhag gorfod ciwio, mae lôn newydd bwrpasol yn cael ei chreu er mwyn troi i mewn ac allan o'r stad oddi ar yr A48.

Yn rhan o'r gwaith, mae goleuadau traffig newydd yn cael eu gosod, a bydd y ffordd ger Heol Mostyn yn cael ei hailwynebu.

Disgwylir y bydd hi'n cymryd hyd at 12 wythnos i gwblhau'r gwelliannau, ac mae pob ymdrech yn cael ei wneud i sicrhau cyn lleied o anghyfleustra â phosib.

Pan fydd yn agor yn ddiweddarach eleni, bydd y Ganolfan Ailgylchu Gymunedol newydd yn cynnwys cilfachau parcio ar gyfer 31 o geir, capasiti ciwio ar y safle ar gyfer hyd at 72 o gerbydau ar y tro, a mynediad haws ar hyd lonydd newydd o'r ffordd osgoi.

Rwy'n credu y bydd pobl yn croesawu'r ganolfan ailgylchu newydd ar ôl gweld faint yn haws yw hi i'w defnyddio, ac rwy'n edrych ymlaen i roi mwy o fanylion ichi'n fuan.

<u>Yr Aelod Cabinet - Cymunedau</u>

Efallai y bydd yr aelodau am atgoffa eu hetholwyr fod ymgynghoriad cyhoeddus ar y gweill ar gynigion a allai arwain at ddatblygu fferm wynt newydd ar y tir rhwng cymoedd Llynfi ac Afan.

Mae'r datblygiad fferm wynt, Y Bryn, wedi cael ei gynnig gan y cwmnïau ynni, Coriolis Energy ac ESB.

Os bydd yn llwyddiannus, mae'r cynllun hwn yn addo cyflenwi digon o ynni glân i bweru dros 125,000 o gartrefi.

Fodd bynnag, byddai hefyd yn cael effaith weledol sylweddol, oherwydd y tyrbinau 250 metr o uchder fyddai'r tyrbinau talaf a welwyd hyd yma yn y DU.

Ar hyn o bryd mae'r prosiect yn cynnwys hyd at 26 o dyrbinau a seilwaith cysylltiedig fel cyfleuster storio batri, is-orsafoedd ar-safle a thraciau mynediad.

Byddai'n cael ei rannu rhwng dau floc o goedwigoedd ar dir sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru ac a reolir gan Gyfoeth Naturiol Cymru.

Mae'n bwysig nodi nad yw'r prosiect hwn wedi cael ei gynnig gan gynghorau Pen-y-bont ar Ogwr na Chastell-nedd Port Talbot, a Llywodraeth Cymru fydd piau penderfynu a fydd y prosiect yn mynd rhagddo ai peidio.

Mae arddangosfeydd yn cael eu cynnal i'r cyhoedd ar hyn o bryd. Cynhaliwyd un arddangosfa ddydd Llun diwethaf yng Nghlwb Rygbi a Phêl Droed Maesteg. Bydd ail arddangosfa yn cael ei chynnal yng Nghlwb Athletau Cefn Cribwr rhwng 1pm a 7pm ddydd Iau 24 Mehefin.

Mae gwefan hefyd wedi cael ei sefydlu i roi manylion llawn am y prosiect, yn ogystal â gwybodaeth am y dulliau amrywiol y gall preswylwyr eu defnyddio i ddweud eu dweud.

Cewch hyd i'r wefan yn www.ybryn-windfarm.cymru.

Rwy'n gobeithio y bydd pobl yn manteisio'n llawn ar y cyfle hwn i astudio'r cynnig yn fanylach, i ofyn cwestiynau ac i ddweud eu dweud.

<u>Aelod Cabinet - Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol</u>

Efallai y bydd gan yr aelodau ddiddordeb i wybod bod dros 1,500 o bobl yn byw yn y fwrdeistref sirol wedi'u cofrestru ar hyn o bryd fel gwirfoddolwyr gyda Chymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr.

Mae pob un ohonom wedi gweld sut mae gwirfoddolwyr wedi camu i'r bwlch yn ystod pandemig y coronafeirws.

Boed hynny drwy alw heibio ar ymweliadau llesiant, siopa am neges, casglu meddyginiaethau, rhoi lifft i bobl i apwyntiad neu gefnogi'r rhaglen frechu barhaus, mae pob un ohonom yn ymwybodol o'r rhan bwysig y mae gwirfoddolwyr wedi'i chwarae.

Dathlwyd eu cyfraniad yn ddiweddar yn rhan o'r Wythnos Gwirfoddolwyr flynyddol ac oedd yn cael ei chynnal am y 37fed tro. Nod y digwyddiad oedd diolch i wirfoddolwyr a chydnabod eu hymdrechion i helpu ein cymunedau.

Mae gwirfoddolwyr yn parhau i chwarae rhan bwysig ym mhob agwedd ar fywyd y gymuned, felly roedd hyn yn gyfle i ddweud 'diolch' wrthyn nhw, ac i roi gwybod iddyn nhw faint rydyn ni'n gwerthfawrogi eu cymorth a'u cefnogaeth.

Rydym yn dal i fod yn eithriadol o ddiolchgar am eu holl gymorth, ymroddiad a gofal.

Dylai unrhyw un sydd am wybod mwy am gyfleoedd gwirfoddoli ymweld â gwefan BAVO.

Yr Aelod Cabinet - Y Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar

Yn ddiweddar, ymwelodd yr Arweinydd a mi nifer o'n staff gofal cartref mewn lleoliadau a oedd yn amrywio rhwng Depo Bryncethin a chyfleuster Glyncynffig ym Mynydd Cynffig a'r unedau byw gyda chymorth pwrpasol newydd ym Maesteg.

Roeddem am ddiolch yn bersonol i'r staff am y gwaith rhagorol maen nhw'n parhau i'w wneud, ac am y rôl bwysig maen nhw'n ei chyflawni yn ein cymunedau lleol.

Roedd yr ymweliadau'n cyd-daro ag adroddiad a luniwyd gan Arolygiaeth Gofal Cymru ar y gwasanaeth cymorth yn y cartref, ac roeddwn wrth fy modd o weld pa mor gadarnhaol oedd yr adroddiad hwnnw.

Tynnodd arolygwyr sylw at y ffaith bod pawb yr oedden nhw'n siarad â nhw yn canmol y staff gofal, ac yn teimlo eu bod yn darparu gwasanaeth a oedd yn bodloni eu hanghenion.

Roedden nhw'n canmol y strwythur rheoli clir, y cymorth da a'r cyfleoedd sydd ar gael i ddatblygu, a'r adborth cadarnhaol gan staff a ddywedodd eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi.

Dywedodd y bobl sy'n derbyn gofal a chymorth hefyd wrth yr arolygwyr eu bod yn hyderus wrth adael i weithwyr gofal ddod i mewn i'w cartrefi am eu bod yn cadw'r holl arferion hylendid.

Rydym yn falch dros ben o'n timau gofal, ac mae'r ymrwymiad a'r ymroddiad y maen nhw'n dal i'w arddangos wedi cael ei adlewyrchu yn y sylwadau a gafwyd gan y bobl maen nhw'n eu cefnogi.

Ar unrhyw bryd, mae oddeutu 1,200 o bobl yn defnyddio'r gwasanaeth, ac wrth ychwanegu rhagor o wybodaeth ar wefan y Cyngor, rydym yn mynd ati i annog mwy o bobl i ystyried yn fanylach a allent fod yn aelod o'r tîm cymorth yn y cartref.

Yr Aelod Cabinet - Addysg ac Adfywio

Mae'r arbenigwyr adeiladu, Knights Brown, yn gwneud cynnydd cryf gyda'r cynllun amddiffyn rhag llifogydd gwerth £6.4 miliwn a fydd yn amddiffyn Porthcawl rhag unrhyw gynnydd yn lefelau'r môr yn y dyfodol.

Maen nhw wedi sefydlu compownd ar y tir yn Salt Lake, ac wedi cychwyn cam cyntaf y gwaith, sy'n canolbwyntio ar forglawdd eiconig y Gorllewin.

Gan fod strwythur mewnol y morglawdd 200 oed yn dal i gynnwys y craidd pren mewnol, mae angen ei adnewyddu a'i ailwampio'n helaeth i sicrhau y gall barhau i sefyll yn wyneb y llanw a'r tywydd garw ar y môr.

Mae Knights Brown hefyd wedi dechrau uwchraddio Promenâd y Dwyrain i greu gwell amddiffynfeydd rhag llifogydd rhwng Marina Porthcawl a Thraeth Coney. Bydd y gwaith wedyn yn ymestyn at Sandy Bay ac mor bell a Thrwyn Rhych, lle bydd gwaith yn cael ei gyflawni i amddiffyn rhag llifogydd a gwarchod y twyni.

Bydd y prosiect o gymorth i sicrhau datblygiad yn ardal Salt Lake ym Mhorthcawl yn y dyfodol, gan gadw dros 500 o gartrefi a thros 170 o fusnesau'n ddiogel.

Mae'r cynlluniau ar gyfer Cosy Corner hefyd yn mynd rhagddynt. Mae Croeso Cymru yn bwrw ymlaen â chais am £1m o gyllid, ac mae'r Cyngor wedi cytuno i ddarparu £885,000 o arian cyfatebol ar gyfer hyn.

Mae'r cyfleusterau a gynllunnir yn cynnwys adeilad newydd sbon wedi'i orchuddio â cherrig a gwydr, a fydd yn cynnig eiddo newydd sy'n addas i fusnesau manwerthu a busnesau sy'n dechrau, man cyfarfod i'w ddefnyddio gan y gymuned, sgwâr orymdeithio ar gyfer Cadetiaid y Môr, swyddfa i'r harbwrfeistr a chyfleusterau newydd i ddefnyddiwyd y farina gyfagos.

Os bydd cyllid yn caniatáu, ceir cynlluniau hefyd i ychwanegu at y cynllun drwy gynnwys gwaith tirweddu newydd, seddau i'r cyhoedd, ardal chwarae i blant a chanopi a fydd yn gallu cynnig cysgod cyffyrddus y tu allan rhag y glaw a'r haul.

Yn y Cabinet ddoe, cymeradwywyd buddsoddi mewn addysg gynradd yng Ngogledd Corneli, ac mewn addysg bellach ac uwch yng nghanol tref Pen-y-bont ar Ogwr.

Byddaf yn rhoi mwy o newyddion wrth i'r prosiectau hyn ddatblygu.

<u>Y Prif Weithredwr</u>

Roeddwn yn meddwl y byddai'r aelodau am gael gwybod lle'r ydym arni o ran y rhaglen frechu rhag coronafeirws.

Mae'r ffigurau diweddaraf gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg wedi cadarnhau bod mwy na 529,600 o frechiadau bellach wedi'u rhoi ledled y rhanbarth.

Mae'r ffigur hwn yn cynnwys bron 318,800 o bobl sydd wedi derbyn eu dos cyntaf, a thros 210,800 o bobl wedi derbyn eu hail ddos.

Ar gyfer Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, mae'n golygu bod cyfanswm cronnus o 167,775 o frechiadau bellach wedi cael eu rhoi i breswylwyr lleol.

O ran cynnydd, mae'r brechlynnau ar gyfer y pum grŵp cyntaf â blaenoriaeth oll wedi'u cwblhau.

Mae hyn yn cynnwys preswylwyr a staff cartrefi gofal i oedolion hŷn, pobl 65 ac 80 oed ac yn hŷn, pobl sydd yn eithriadol o fregus yn glinigol, a gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol ar y rheng flaen.

Yn ogystal â hynny, mae oddeutu 76 y cant o bobl 16 i 64 oed a chanddynt gyflyrau iechyd sylfaenol wedi cael eu brechu'n llawn, ac mae meddygon teulu'n parhau i gwblhau'r grŵp blaenoriaeth hwn.

Mae gofalwyr di-dâl nad ydynt eto wedi cael eu brechu o fewn eu grwpiau blaenoriaeth yn cael gwahoddiad i gysylltu â'u bwrdd iechyd i drefnu apwyntiad, tra bo 89 y cant o bobl 60 oed a throsodd wedi cael eu brechu'n llawn.

Yn ystod yr wythnos ddiwethaf, mae 85 y cant o bobl 55 oed a hŷn wedi cael eu brechu'n llawn, tra bo'r grŵp blaenoriaeth i bobl 50 oed a hŷn newydd basio hanner ffordd, sef 53 y cant wedi'u cwblhau.

Mae'r grŵp blaenoriaeth olaf yn cynnwys gweddill y boblogaeth o oedolion cymwys.

Ar hyn o bryd mae apwyntiadau ar gyfer ail ddosau'n cael eu rhoi i bobl rhwng 40 a 49, ac mae pawb 30-39 oed bellach wedi cael cynnig eu brechlyn cyntaf.

Mae tua 58 y cant o bobl 18 i 29 oed hefyd wedi derbyn eu dos cyntaf, ac mae llythyrau apwyntiad yn parhau i gael eu hanfon.

Mewn newyddion cysylltiedig, byddwch wedi gweld mai amrywiolyn Delta bellach yw'r straen mwyaf cyffredin mewn achosion newydd o Covid-19.

Er nad oes tystiolaeth i awgrymu bod amrywiolyn Delta yn fwy peryglus, y mae prawf pendant ei fod yn heintus iawn.

Mewn astudiaeth ddiweddar a gynhaliwyd gan Iechyd Cyhoeddus Lloegr, mae'n werth nodi bod gan ddau o brif frechiadau'r DU, Pfizer ac AstraZeneca, effeithiolrwydd o 33 y cant yn erbyn amrywiolyn Delta ar ôl un brechlyn, a thros 80 y cant o effeithiolrwydd ar ôl ail ddos.

Mae hyn yn dangos yn glir pa mor bwysig yw hi i bobl gael eu brechu'n llawn.

Ynghyd â'n partneriaid, rydym yn atgoffa pobl ynghylch pwysigrwydd peidio llaesu dwylo, ac i ddilyn yr holl reolau a gweithdrefnau er mwyn helpu i gadw ein cymunedau'n ddiogel.

Mae hyn yn arbennig o arwyddocaol wrth i bobl geisio mwynhau tywydd braf yr haf neu ddathlu digwyddiadau fel yr Ewros.

Efallai yr hoffai aelodau atgoffa eu hetholwyr fod cyfleusterau profi symudol yn parhau i fod ar gael o fewn y fwrdeistref sirol, ac mae manylion llawn i'w cael ar dudalen gynghori Covid-19 ar wefan y Cyngor.

545. DERBYN CYHOEDDIADAU GAN YR ARWEINYDD

Efallai fod yr Aelodau'n gwybod y bydd Diwrnod y Lluoedd Arfog yn cael ei gynnal eleni ar ddydd Sadwrn 26 Mehefin.

Er bod cyfyngiadau'r pandemig wedi cyfyngu ar y modd y gallwn nodi'r achlysur pwysig hwn, mae baner y Lluoedd Arfog wedi bod yn hedfan o flaen y Swyddfeydd Dinesig i gydnabod y digwyddiad.

Rydym hefyd yn defnyddio'r achlysur i atgoffa aelodau cyfredol ac aelodau sy'n gwasanaethu yn y fyddin fod Cyfamod Cymunedol y Lluoedd Arfog wedi'i sefydlu i roi cymorth a chefnogaeth iddynt.

Mae'r cyfamod, sydd wedi bod ar waith ers 2013, yn addo cyd-gefnogaeth rhwng pobl Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, cymuned y lluoedd arfog, sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus, busnesau lleol a'r sectorau elusennol a gwirfoddol.

Mae'n dod â sefydliadau ynghyd ar raddfa leol i weithio mewn partneriaeth a defnyddio eu gwybodaeth, eu profiad a'u medrusrwydd arbenigol i roi cymorth, cefnogaeth a chyngor priodol i gymuned y lluoedd arfog.

Ar hyd y blynyddoedd, mae'r cyfamod cymunedol wedi cael ei ddatblygu a'i ehangu i gynnig ystod o fanteision.

O ganlyniad i hyn, bydd ymgeiswyr tai sydd angen llety wedi'i addasu oherwydd anafiadau a gawsant wrth wasanaethu, neu a allai fod angen rhywle i fyw ar ôl gadael y Lluoedd Arfog, yn cael blaenoriaeth.

Mae Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor wedi cael ei ddiwygio fel nad yw pensiynau gweddwon rhyfel yn cael eu cynnwys mwyach wrth gyfrifo incwm yr unigolyn.

Mae'r Polisi Dyrannu Lleoedd Ysgol hefyd yn sicrhau nad yw cyn-filwyr dan anfantais wrth ddychwelyd i Fwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Gall aelodau o'r fyddin a chyn-filwyr fwynhau sesiynau am ddim ym mhyllau nofio lleol Halo ledled y fwrdeistref sirol, a gallant wneud cais i gronfa'r cyfamod cymunedol am gymorth ariannol sydd wedi'i gynllunio i'w helpu i integreiddio i fywyd sifil.

Mae Cyfamod Cymunedol y Lluoedd Arfog yn ei gwneud hi'n haws i aelodau o'r fyddin, eu teuluoedd a chyn-filwyr dderbyn y cymorth, y gefnogaeth a'r gydnabyddiaeth y maen nhw'n eu llawn haeddu.

Yn ogystal â bod yn arwydd o barch, mae'r cyfamod cymunedol yn dangos nad yw pobl Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi anghofio gwasanaeth, aberth ac ymroddiad ein lluoedd arfog.

Mae rhagor o wybodaeth am Gyfamod Cymunedol y Lluoedd Arfog, a'r modd y gall roi cymorth i bobl leol, ar gael ar wefan y Cyngor.

Hoffwn atgoffa'r aelodau mai'r dyddiad cau ar gyfer gwneud cais i'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion y DU yw 30 Mehefin.

Os oes gennych etholwyr yn eich ward sydd yn ddinasyddion yr UE, dyma eu cyfle olaf i wneud cais i barhau i fyw a gweithio yn y DU, er bod y Llywodraeth hefyd wedi cadarnhau y ceir estyniad o 28 diwrnod i bobl a chanddynt esgus rhesymol dros yr oedi.

Mae gwefan y Cyngor yn cynnwys llawer o wybodaeth am y cynllun preswylio'n sefydlog, ac yn cynnwys manylion am y cymorth a'r cyngor sydd ar gael.

Gallwch hefyd ymweld â thudalen we Llywodraeth y DU ar gyfer y Cynllun Preswylion'n Sefydlog i Ddinasyddion y DU.

Yn olaf, rydym ar ganol cyflawni cam olaf ein buddsoddiad parhaus mewn seilwaith priffyrdd, gyda chynllun gwella ffyrdd gwerth £2.7 miliwn sy'n targedu 40 o ffyrdd lleol.

Mae gwaith ailwynebu eisoes wedi'i gwblhau ar ffyrdd o fewn ardaloedd Porthcawl, Notais, Caerau, Cefn Glas a Stad Ddiwydiannol Bracla, a bydd gwaith yn cael ei gyflawni ar Heol Maesteg A4063 yn Nhondu, a hefyd ar ffyrdd yn Nantymoel, Bracla, Llangeinor, Shwt a Phontycymer.

Bydd gwaith trwsio ac ailwynebu pellach hefyd yn cael ei gyflawni'n ddiweddarach yn y flwyddyn, a bydd mwy o fanylion am hyn yn cael eu cadarnhau'n fuan.

Mewn digwyddiad diweddar yr oeddwn i a'r Maer yn bresennol ynddo, gofynnodd Iolo Williams i bob Cyngor yn y DU leihau'r graddau y caiff llystyfiant ar ymylon ffyrdd ei dorri. Nod hynny oedd gwella nodweddion bioamrywiaeth ardaloedd o'r fath, sy'n hollbwysig er mwyn cysylltu ein hadnoddau natur gwasgaredig, fel rydyn ni'n ei wneud yn CBSPO, oherwydd y bygythiad i fioamrywiaeth, ac i greu terfynau ar gyfer bywyd gwyllt ar draws awdurdodau Cymru.

546. RHAGLEN PROFI, OLRHAIN, DIOGELU CWM TAF MORGANNWG - RHAGLEN PARTNERIAETH

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad er mwyn cyflwyno Cynllun Atal ac Ymateb Profi, Olrhain a Diogelu Rhanbarth Cwm Taf Morgannwg 2021/2022, i nodi ac amlinellu cyfraniad y Cydwasanaethau Rheoleiddio at gyflawni'r Cynllun.

Cyflwynodd Kelechi Nnoaham, Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus ac Arweinydd YaD er mwyn Arloesi a Dave Holland, Pennaeth y Cydwasanaethau Rheoleiddio, i'r aelodau, a fyddai'n rhoi cyflwyniad ar y cyd ynghylch y rhaglen uchod.

Yn ôl yr adroddiad, roedd Llywodraeth Cymru wedi llunio ei Strategaeth "Profi, Olrhain, Diogelu" ar 13 Mai 2020 a oedd yn seiliedig ar gyngor Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC). Roedd yn ofynnol i bob rhanbarth ddatblygu cynllun ymateb yn amlinellu sut y byddai nodau'r Strategaeth yn cael eu cyflawni. Mae cynllun ymateb Cwm Taf Morgannwg, a elwir yn Rhaglen Profi, Olrhain, Diogelu CTM yn cael ei reoli ar sail ôl-troed ranbarthol (CTM) o dan arweinyddiaeth y Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus. Mae Grŵp Goruchwylio Strategol Rhanbarthol aml-asiantaeth a oedd yn cynnwys aelodau o'r Bwrdd Iechyd, o'r Tîm Iechyd Cyhoeddus Lleol a'r tri awdurdod lleol wedi cael ei sefydlu i weithredu'r cynllun ymateb o fewn ardal CTM.

Cafodd Cynllun Atal ac Ymateb COVID-19 Cwm Taf Morgannwg ar gyfer 2021/2022, sydd wedi'i gynnwys yn Atodiad 1 yr adroddiad, ei gyflwyno i Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru ym mis Awst 2020.

Arweiniodd cynllun 2020/2021 nifer o gamau o bwys, a gyflawnwyd mewn partneriaeth ac yn aml o fewn graddfeydd amser byr, a'r cyfan yn anelu i atal ac ymateb i'r pandemig i leihau'r effaith ar ein cymunedau hyd y gellir. Cafodd y rhain eu cynnwys ar ffurf bwledi, ym mharagraff 4.1 yr adroddiad.

Cafodd y cynllun ei osod yng nghyd-destun 'trem yn ôl' ar ddigwyddiadau yn 2020/2021 a'r gwersi a ddysgwyd. Roedd y cynllun yn rhoi rhywfaint o'r cefndir epidemiolegol, ynghyd â statws cyfredol COVID-19 yn CTM, a'r senarios posibl y mae angen i gymunedau fod yn barod i ymateb iddynt wrth inni symud i mewn i 2021/2022.

Ym mis Mawrth 2021, lluniodd Archwilio Cymru adroddiad "Profi, Olrhain, Diogelu yng Nghymru: Trosolwg o'r Cynnydd Hyd Yma "(wedi'i gynnwys yn Atodiad 2 o'r adroddiad). Dyma'r negeseuon allweddol ar raddfa genedlaethol:

- Drwy'r rhaglen Profi, Olrhain, Diogelu, mae gwahanol rannau o sector cyhoeddus a thrydydd sector Cymru wedi cydweithio'n dda, mewn partneriaethau cryf ac effeithiol, i fynd ati'n gyflym i adeiladu rhaglen o weithgareddau sy'n gwneud cyfraniad pwysig at reoli COVID-19 yng Nghymru.

- Ceir nifer o gryfderau yn gysylltiedig â chyfluniad y system Profi, Olrhain, Diogelu yng Nghymru, gan gyfuno goruchwyliaeth genedlaethol ag arbenigedd technegol â pherchnogaeth ranbarthol ar y rhaglen, a'r gallu i ddefnyddio dealltwriaeth a gwybodaeth leol i lywio ymatebion.

- Bydd y rhaglen Profi, Olrhain, Diogelu yn parhau i fod yn offeryn allweddol ym mrwydr Cymru â'r firws am gryn amser.

Roedd adroddiad Archwilio Cymru yn amlygu nifer o heriau sy'n effeithio ar ddarpariaeth gwasanaethau. Rhoddwyd ystyriaeth i'r rhain wrth ddatblygu cynllun eleni. Rhestrwyd y rhain ym mharagraff 4.5 yr adroddiad.

Er cydnabod cynnydd cadarnhaol y rhaglen frechu, ceir ansicrwydd o hyd ynghylch amrywiolion COVID-19 sy'n destun pryder, ac mae angen parhau i fonitro a bod yn ystwyth ac yn hyblyg, er mwyn ymateb i fygythiadau sydd ar ddod.

Cyflwynir y gwaith adfer Profi, Olrhain, Diogelu fel darn o waith galluogol a fydd yn sail i'r rhaglen, wrth inni symud, gyda gobaith, o bandemig iechyd i sefyllfa endemig.

Roedd y Cydwasanaethau Rheoleiddio (CRh) hefyd ar flaen y gad wrth i fusnesau gau ar ddechrau'r pandemig, gan roi cymorth a chyngor i nifer o fusnesau. Wrth i'r ddeddfwriaeth esblygu, parhawyd i roi cyngor, gan newid y cyngor yn gyflym yn unol â chyfyngiadau cyfredol. Rhoddodd swyddogion gyngor wedi'i gynllunio'n arbennig i gynorthwyo busnesau â'u cynlluniau i ailagor.

Wedyn, gofynnodd yr aelodau nifer o gwestiynau i'r gwahoddedigion.

Cyfeiriodd aelod at baragraff 4.10 yr adroddiad a'i gyfeiriad at y Cyd Dîm Gweithredol, hy, oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o Heddlu De Cymru a'r Cydwasanaethau Rheoleiddio. Roedd yn ymwybodol o'r ffaith y gallai hysbysiadau cosb benodedig gael eu rhoi i unigolion a gweithrediadau busnes, am fethu â chydymffurfio â rheolau a rheoliadau sy'n ymwneud â phandemig Covid-19. Gofynnodd a oedd cyfle hefyd i newid ymddygiad pobl fel eu bod yn cael eu haddysgu sut i gydymffurfio â'r rhain, yn lle gorfod wynebu camau gorfodi. O ran y rhai a wynebai ddirwyon cosb benodedig, gofynnodd lle'r oedd yr arian o'r taliadau hynny'n mynd.

Cadarnhaodd cynrychiolydd y Cydwasanaethau Rheoleiddio fod Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru wedi rhoi cyngor eang ynghylch y rhagofalon angenrheidiol oherwydd y pandemig, ac atgyfnerthwyd hyn yn nhermau busnesau gan dîm y Cydwasanaethau Rheoleiddio. Os nad oedd pobl yn cydymffurfio â'r rhain, yn anffodus byddai angen cymryd camau gorfodi wedyn. Roedd 121 o Hysbysiadau Gwella wedi cael eu cyflwyno i fusnesau hyd yma, am eu bod wedi methu cydymffurfio â chanllawiau rheoleiddio a oedd wedi'u cyflwyno er mwyn gwella arferion diogelwch Covid mewn busnesau. Caewyd 7 busnes o blith y rhain, yn sgil diffyg cydymffurfio â'r rheoliadau hynny. Ychwanegodd fod yr arian a gymerir drwy ddirwyon hysbysiadau cosb benodedig wedyn yn cael ei gyfrannu at y cyllid a ddefnyddir gan y Cydwasanaethau Rheoleiddio a CBSPO i ariannu'r gwasanaeth hwnnw.

Cyfeiriodd Aelod at dudalen 83 yr adroddiad, ac at fap a ddangosai fannau problemus o ran firws Covid. Teimlai fod goruchwyliaeth epidemiolegol yn allweddol i'r rhaglen Profi, Olrhain a Diogelu yn y dyfodol. Gan mai amrywiolyn Delta oedd y prif straen bellach a'i fod yn achosi rhywfaint o fygythiad i bobl, gofynnodd a oedd unrhyw ddata ar lefel Wardiau, lle'r oedd yr amrywiolyn yn fwyaf cyffredin ar hyn o bryd, yn y Fwrdeistref Sirol. Teimlai fod angen data o'r fath, rhag ofn y ceir trydedd ton o'r salwch yn yr hydref. Byddai'n fuddiol cipio rhywfaint o'r data hyn ar gyfer yr Aelodau, er mwyn gallu hysbysu aelodau eu ward ym mha ardaloedd yr oedd y salwch ar ei uchaf, o gymharu ag ardaloedd eraill.

Cadarnhaodd cynrychiolydd y Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus, yn nhermau'r ffigurau cenedlaethol, mai amrywiolyn Delta oedd 70-80% o'r heintiau Covid-19, felly dyna oedd y prif straen a oedd yn bresennol drwy'r wlad ar hyn o bryd. O ran ardal Cwm Taf Morgannwg (CTM), amrywiolyn Delta oedd 100% o'r holl samplau a gymerwyd hyd yma. Yn bendant felly, amrywiolyn Delta oedd y prif amrywiolyn ledled Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Roedd yr amrywiolyn hwn 40% yn fwy heintus nag amrywiolyn Alffa (Caint), ac roedd pobl a oedd yn dal y straen hwn ddwy waith a hanner yn fwy tebygol o orfod mynd i'r ysbyty na phobl oedd yn dal amrywiolyn Alffa. Fodd bynnag, y newydd da oedd nad oedd cynnydd anghyffredin yn nifer yr achosion o

hyn, nac yn yr achosion a oedd yn cyrraedd yr ysbyty, ar hyn o bryd yn ardal CTM, yn enwedig ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Yn dilyn hyn, dywedodd yr Aelod, pe bai cynnydd sydyn yn yr achosion Delta yn un neu ddwy o ardaloedd y Fwrdeistref Sirol, byddai'n fanteisiol pe bai modd i Aelodau'r Ward berthnasol gael gwybod hynny, i rannu'r wybodaeth â'u hetholwyr.

Gofynnodd Aelod a oedd aelodau'r cyhoedd yn cydymffurfio â'r protocolau fel rheol, hy, yn hunanynysu am y cyfnod gofynnol, os oeddent wedi cael diagnosis o Covid-19. Gofynnodd hefyd os oedd rhai aelodau'r cyhoedd wedi gwrthod brechlyn ar ôl cael y cynnig, a allent newid eu meddwl a'i gael yn ddiweddarach.

O ran yr ail bwynt, dywedodd cynrychiolydd y Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus fod ail gyfle o hyd i gael y brechlyn, er enghraifft drwy'r sesiynau clirio/galw heibio.

O ran cydymffurfio â'r rheoliadau ac a oedd pobl a oedd yn dioddef y salwch yn hunanynysu, ychwanegodd fod y cyfraddau wedi bod yn uchel drwy gydol y pandemig. Ychwanegodd cynrychiolydd y Cydwasanaethau Rheoleiddio fod y cyfnod hunanynysu hwn yn cael ei fonitro drwy ffonio'r unigolyn yn rheolaidd, a chydymffurfiaeth hefyd yn cael ei orfodi drwy Heddlu De Cymru/y Cydwasanaethau Rheoleiddio. Cafodd busnesau hefyd eu herio a'u cymell yn gryf i anfon unrhyw aelodau o staff adref i hunanynysu, os oeddent yn gwybod eu bod wedi dal y feirws.

Ychwanegodd yr Arweinydd nad oedd hi fyth yn rhy hwyr i unrhyw un gael y brechlyn. Roedd y brechlyn yn ddiogel a'i ganran lwyddo yn uchel, yn nhermau atal pobl naill ai rhag dal y clefyd, neu os oeddent yn ei ddal, eu hatal rhag bod yn ddifrifol wael o ganlyniad i hynny.

Yn nhermau data ar lefel y Ward, bu pryderon yn y gorffennol, lle cafwyd cynnydd sydyn yn y salwch yn rhai rhannau o'r Fwrdeistref Sirol, gan gynnwys Cwm Garw a Phorthcawl er enghraifft. Roedd sefydliadau busnes yn dal i dderbyn gwybodaeth a chyngor, yn enwedig wrth i'r salwch newid ac esblygu, ac roedd angen addasu gwybodaeth a chanllawiau atodol i gyd-fynd â hyn. Canmolodd waith Iechyd, Cydwasanaethau Rheoleiddio a Heddlu De Cymru yn nhermau'r rhaglen Profi, Olrhain, Diogelu, a gweithredu mesurau gorfodi a oedd yn helpu i gadw'r cyhoedd yn iach a diogel.

Adleisiodd cynrychiolydd y Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus y sylwadau hyn, ac annog y cyhoedd i gael y brechlyn, gan fod effeithiau'r salwch ar bobl nad oeddent wedi'i gael yn llawer gwaeth nag unrhyw effeithiau niweidiol yn gysylltiedig a'r brechlyn ei hun.

Gofynnodd Aelod a fyddai unigolion yn cael eu dwyn gerbron Llys am fethu talu unrhyw Hysbysiadau Cosb Benodedig am dorri rheoliadau Covid-19.

Cadarnhaodd cynrychiolydd y Cydwasanaethau Rheoleiddio fod hynny'n digwydd. Fodd bynnag, oherwydd y pandemig roedd ôl-groniad o achosion yn disgwyl gwrandawiad, gan gynnwys yr uchod, a oedd yn droseddau llai difrifol na rhai o'r troseddau o bwys a oedd yn dod gerbron y llys, a oedd felly'n derbyn blaenoriaeth.

Cyfeiriodd Aelod at y pwynt bod CTM wedi llunio ffurflen ganslo ar-lein i rai nad oeddent yn gallu dod i'r apwyntiad brechlyn ar eu gwahoddiad, ac roedd y ffurflen honno'n cynnwys cyfle i aildrefnu apwyntiad ar ddyddiad arall. Fodd bynnag, nid oedd hyn wedi'i nodi ar y llythyr gwreiddiol a oedd yn gwahodd pobl i gael brechlyn. Gofynnodd beth oedd yn cael ei wneud o ran ymgysylltu â Llywodraeth Cymru, er mwyn sicrhau bod y ddau lythyr canllaw yn gyson â'i gilydd.

Cadarnhaodd cynrychiolydd y Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus y byddai'n mynd ar drywydd hyn ymhellach â'r timau brechu ac yn cysylltu eto i roi ymateb priodol i'r Aelod, y tu allan i'r cyfarfod.

Roedd Aelod yn awyddus i barhau i atgoffa'r cyhoedd yn gyffredinol ynghylch darpariaethau'r rhaglen Profi, Olrhain, Diogelu, er mwyn codi ymwybyddiaeth yn barhaus ynghylch y salwch a'i effeithiau, wrth i gymdeithas ailagor, yn enwedig yn sgil amrywiolyn Delta.

Cydnabu cynrychiolydd y Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus hyn, ond ychwanegodd pe bai'r rhaglen frechu'n parhau ar ei chyflymder presennol, a bod y wlad yn cyrraedd sefyllfa imiwnedd torfol, hy 80-90% o bobl wedi'u brechu, ni fyddai angen cymaint o gyhoeddusrwydd ar gyfer yr ymgyrch Profi, Olrhain, Diogelu flaenorol gan y byddai gan gymdeithas fwy o reolaeth ar y clefyd. Er y gellid ailystyried hyn yn y dyfodol pe bai angen, hy gweithredu'r rhaglen Profi, Olrhain, Diogelu yn llawn unwaith eto pe bai angen. Ar hyn o bryd, serch hynny, nid oedd yn meddwl y byddai angen hynny.

Dywedodd Aelod y byddai angen edrych yn fanwl ar apwyntiadau i roi brechlynnau gartref, i'r bobl hynny a oedd yn gaeth i'w gwely neu bobl â namau corfforol. Roedd yn rhaid gwneud trefniadau eraill i rai a oedd yn derbyn apwyntiad i gael brechlyn yn eu practis meddyg teulu ac ati, ond nad oeddent yn gallu mynd i'r apwyntiad am resymau felly. Ychwanegodd fod angen monitro rheoliadau hefyd yng nghyswllt elfennau diogelwch ar gyfer y clefyd, yn achos y bobl hynny a ddefnyddiai gludiant cyhoeddus, hy cadw at y cynllun seddau a glanhau'r bysus yn rheolaidd rhwng llwybrau gwasanaeth.

Cadarnhaodd cynrychiolydd y Cydwasanaethau Rheoleiddio fod y rheoliadau'n cynnwys darpariaethau ar gyfer hyn, ond mai Heddlu De Cymru oedd yn gyfrifol am eu monitro, er bod hynny'n digwydd drwy'r Cyd-Dîm Gorfodi.

Yn eu tro, daeth y Prif Weithredwr a'r Arweinydd â'r drafodaeth ar y bwnc pwysig hwn i ben, drwy ddiolch i gynrychiolwyr y Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus a'r Cydwasanaethau Rheoleiddio am fod yn bresennol heddiw i ymateb i gwestiynau'r Aelodau. Diolchwyd hefyd am eu gwaith caled a'u hymroddiad yn ystod cyfnod anodd iawn y pandemig - a hynny'n ychwanegol at waith arall y maent yn ei gyflawni o ddydd i ddydd.

<u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cyngor yn nodi Rhanbarth Cwm Taf Morgannwg - Cynllun Atal ac Ymateb Profi, Olrhain, Diogelu COVID-19 2021/22, a gwaith parhaus y Cydwasanaeth Rheoleiddio wrth gyflawni'r cynllun.

547. <u>ALLDRO CYLLIDEB REFENIW 2020-21</u>

Cyflwynodd y Prif Swyddog Dros Dro - Cyllid, Perfformiad a Newid adroddiad i roi'r newyddion diweddaraf ynghylch perfformiad ariannol y Cyngor o safbwynt refeniw ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021.

Fel cefndir, roedd yr adroddiad yn atgoffa'r Aelodau fod y Cyngor, ar 26 Chwefror 2020, wedi cymeradwyo cyllideb refeniw net o £286.885 miliwn ar gyfer 2020-21. Yn rhan o'r Fframwaith Rheoli Perfformiad, caiff amcanestyniadau o'r gyllideb eu hadolygu'n rheolaidd a'u hadrodd gerbron y Cabinet ar sail chwarterol. Bydd y broses o weithredu gostyngiadau cytunedig i'r gyllideb hefyd yn cael ei hadolygu, ac adroddir am hynny gerbron y Cabinet yn rhan o'r broses hon.

Esboniodd fod blwyddyn ariannol 2020-21 wedi bod yn flwyddyn unigryw a chymhleth wrth reoli sefyllfa ariannol y Cyngor, a hynny'n bennaf o ganlyniad i bandemig Covid-19. Cafwyd newidiadau sylweddol drwy gydol y flwyddyn wrth i amgylchiadau newid, ac wrth gefnogi gwasanaethau mewn gwahanol ffyrdd i greu'r dulliau gorau posib o sicrhau canlyniadau. Sefydlwyd Cronfa Galedi Covid-19 gwerth £188.5m yn fuan gan Lywodraeth Cymru, ac roedd modd i'r Cyngor dderbyn cymorth ariannol o'r gronfa honno.

Roedd y Cyngor wedi bod yn eithriadol o lwyddiannus wrth sicrhau cefnogaeth ar gyfer y costau ychwanegol a ysgwyddwyd, ynghyd â cheisiadau am incwm a gollwyd. Gwnaethom gyflwyno ceisiadau am gyfanswm o £21.5 miliwn o Gronfa Galedi LlC, a dim ond ceisiadau gwerth £882,000 a wrthodwyd.

Yn ogystal â'r cymorth a'r gefnogaeth o Gronfa Galedi LlC, cafwyd grantiau penodol er mwyn helpu i glustogi effeithiau COVID ar ddarpariaeth gwasanaethau. Roedd y rhain yn cynnwys TGCh i ddysgwyr wedi'u heithrio'n ddigidol, ad-dalu ffioedd consesiwn a seiberddiogelwch yr awdurdod lleol, ynghyd â chymorth penodol i ysgolion ar gyfer gwasanaethau cwnsela yn yr ysgol, masgiau wyneb a chymorth ar gyfer costau glanhau ychwanegol. Ar ben hynny, cafwyd grantiau penodol yn chwarter olaf y flwyddyn ariannol.

Cadarnhaodd y Prif Swyddog Dros Dro - Cyllid, Perfformiad a Newid, mai'r newid sylweddol arall rhwng chwarter 3 a chwarter 4 oedd y £1.261 miliwn o gyfraniad gan LlC ym mis Chwefror 2021, i gydnabod y gostyngiad i'r dreth gyngor a gasglwyd gan Gynghorau yn 2020-21 o ganlyniad i bandemig Covid-19. Roedd meysydd buddsoddi allweddol wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad a'u dangos yn fanylach yn Atodiad 1.

Roedd cyllideb refeniw net ac alldro terfynol y Cyngor ar gyfer 2020-21 wedi'u dangos yn Nhabl 1 yr adroddiad.

Yr alldro cyffredinol ar 31 Mawrth 2021, oedd tanwariant net o £432,000 sydd wedi'i drosglwyddo i Gronfa'r Cyngor, gan godi cyfanswm balans y Gronfa i £9.771 miliwn yn unol ag Egwyddor 9 y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (SATC).

Tynnai Tabl 1 sylw at y newidiadau y cyfeiriwyd atynt o £6.6 miliwn ers chwarter 3 yng Nghyllidebau'r Cyfarwyddiaethau, a newid o £4.549 miliwn yng nghyfanswm y cyllidebau ar gyfer y Cyngor Cyfan. Yn Nhabl 2 yr adroddiad, amlygwyd y prif resymau dros y newid, a'r cyllid ychwanegol a dderbyniwyd gan y Cyngor ers chwarter 3 a oedd yn cefnogi'r sefyllfa alldro newydd.

Ers chwarter 3, cadarnhaodd y Prif Swyddog Dros Dro - Cyllid, Perfformiad a Newid fod yr awdurdod wedi hawlio £2.144 miliwn o gyllid Caledi yn llwyddiannus, ynghyd ag £1.066 miliwn am incwm a gollwyd gan yr awdurdod o ganlyniad i bandemig Covid-19. Roedd paragraff 4.3 yn yr adroddiad yn cynnwys mwy o fanylion am y symudiadau ers chwarter 3 ar lefel Cyfarwyddiaeth unigol ac yng nghyllidebau'r Cyngor cyfan.

Mae'r prif bwysau ariannol ym meysydd gwasanaeth Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol a Gofal Cymdeithasol i Oedolion. Roedd pwysau sylfaenol o £1.864 miliwn ar y meysydd gwasanaeth hynny yn unig. Ychwanegodd fod angen cofio bod y meysydd cyllideb hyn yn gallu bod yn anwadal, ac y gall mân newidiadau yn y galw achosi costau cymharol uchel.

Pennwyd y gyllideb net ar gyfer y flwyddyn ariannol gan dybio y byddai'r gostyngiadau cyllidebol gofynnol ar gyfer y flwyddyn gyfredol yn cael eu bodloni'n llawn ar draws cyllideb y Cyngor, sef cyfanswm o £2.413 miliwn. Lle bo cynigion i fodloni'r gofyniad hwn wedi'u oedi neu nad oedd modd eu cyflawni, gofynnwyd i gyfarwyddiaethau nodi

cynigion eraill i fodloni eu gofynion, fel rheoli swyddi gwag, neu gyflwyno cynigion eraill i ostwng y gyllideb. Roedd y rhain wedi'u nodi ym mharagraff 4.2.4 yr adroddiad.

Roedd rhan nesaf yr adroddiad yn tynnu sylw at effaith pandemig Covid-19 ar ymateb y Cyngor a'r Awdurdod at hyn. Roedd yr wybodaeth yn Nhabl 3 a Thabl 4 yn rhoi manylion pellach am hyn.

Roedd Tabl 5 yr adroddiad wedyn yn manylu ar y Ostyngiadau a oedd yn weddill o Gyllideb y Flwyddyn Flaenorol, ac ym mharagraff 4.2.2 yr adroddiad cafwyd manylion ariannol y cynigion hynny a oedd yn dal heb eu cyflawni.

Roedd Tabl 6 wedyn yn cynnwys gwybodaeth am fonitro Gostyngiadau Cyllidebol ar gyfer 2020-21. Roedd y cynigion mwyaf sylweddol am ostyngiadau cyllidebol nad oeddent wedi'u cyflawni'n llawn, ac yr oedd angen gweithredu i'w cyflawni yn 2021-22 wedi'u hamlinellu yn Nhabl 7 yr adroddiad.

Roedd crynodeb o sefyllfa ariannol pob prif faes gwasanaeth wedi'i gynnwys yn Atodiad 4 yr adroddiad, a sylwadau ar yr amrywiadau mwyaf sylweddol wedi'u cynnwys ym mharagraff 4.3 (fesul Cyfarwyddiaeth).

Daeth y Prif Swyddog Dros Dro - Cyllid, Perfformiad a Newid â'r adroddiad i ben drwy roi gwybodaeth fanwl am Gyllidebau'r Cyngor Cyfan a Chronfeydd wedi'u Clustnodi.

Diolchodd y Dirprwy Arweinydd i'r Prif Swyddog Dros Dro - Cyllid, Perfformiad a Newid am ofalu am faterion ariannol yr Awdurdod yn ystod cyfnod mor anodd dros y 14 mis diwethaf, a chyn hynny. Cymeradwyodd Gronfa Galedi Llywodraeth Cymru, oherwydd heb y £21.5m o gyllid a dderbyniwyd drwy'r Gronfa honno, byddai'r Cyngor mewn sefyllfa wahanol iawn. Ychwanegodd hefyd y byddai Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn parhau i helpu etholwyr a oedd yn byw ar eu pen eu hunain, neu a oedd ar incwm isel. Byddai'n sicrhau bod pwysau ariannol a oedd o fewn Cyfarwyddiaethau yn parhau i gael eu targedu fel gostyngiadau i gyllidebau yn y dyfodol.

Holodd Aelod, pe bai'r Awdurdod yn gwybod ei fod mewn sefyllfa ariannol mor ffafriol, oherwydd y cyllid a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru drwy'r Gronfa uchod, a oedd yn cynnwys cynorthwyo'r Cyngor i adennill costau, a fyddai'r Weinyddiaeth yn dal wedi penderfynu cyflwyno cynnydd o 3.9% i'r Dreth Gyngor eleni. Gofynnodd hefyd am esboniad ynghylch pam bod pwysau penodol i'w cael ym maes Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol a Gofal Cymdeithasol i Oedolion.

Dywedodd y Dirprwy Arweinydd fod y cwestiwn hwn a ofynnai inni edrych am yn ôl oedd, ac ei bod hi'n bosibl y byddai'r ymdriniaeth â'r uchod wedi bod yn wahanol o wybod yr hyn yr oeddem yn ei wybod bellach. Fodd bynnag, nid felly yr oedd ar y pryd, ac fe gymeradwywyd y SATC gan y Cyngor yn gynharach eleni, ar adeg pan oedd yr awdurdod lleol wedi'i gael ei hun mewn sefyllfa ariannol anodd iawn.

Dywedodd yr Aelod Cabinet - Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar ei bod hi'n ofni'r pwysau a oedd eisoes ar y Gwasanaethau Cymdeithasol, ac yn anffodus roedd hi'n rhagweld y byddai'r pwysau hynny'n parhau yn y dyfodol. Roedd a wnelo'r rhain â Covid-19 a phwysau'n gysylltiedig â Covid Hir, a'r ffaith y byddai unigolion yn parhau i fod angen cymorth drwy'r Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion ac i Blant. Ychwanegodd fod yn rhaid i'r Cyngor a'i bartneriaid ofalu am y bobl fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas.

Cadarnhaodd yr Aelod Cabinet - Addysg ac Adfywio fod pwysau o hyd ar y gyllideb Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol, a hynny'n oherwydd mesurau cynni yn fwy na dim arall. Roedd y cynnig i dorri'r gyllideb Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol yn dal wedi'i gynnwys yn y

SATC fel gostyngiad a dargedir. Atgoffodd yr Aelodau y dylid nodi bod y Cyngor yn parhau i ddarparu'r gwasanaeth hwn ar gyfradd a oedd yn fwy hael na'r hyn yr oedd Llywodraeth Cymru yn ei argymell.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant fod tri rheswm sylfaenol wrth wraidd y gorwariant parhaus mewn Gofal Cymdeithasol i Oedolion. Y rheswm cyntaf oedd demograffeg - bod y boblogaeth yn heneiddio a phobl yn byw'n hirach. Yn ail, o ganlyniad i'r pandemig a'r pwysau a achosodd ar wasanaethau. Y rheswm olaf oedd cost gofal, yn benodol am y gweithlu ac am wasanaethau a gomisiynir, a fyddai'n bwysau a fyddai'n parhau i'r tymor hwy.

PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor yn nodi'r sefyllfa Alldro Refeniw ar gyfer 2020-21.

548. Y DIWEDDARAF AM Y RHAGLEN GYFALAF

Cyflwynodd y Prif Swyddog Dros Dro - Cyllid, Perfformiad a Newid adroddiad a ofynnai i'r Cyngor gymeradwyo rhaglen gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2020-21 hyd 2030-31 (Atodiad A i'r adroddiad y cyfeiriwyd ato).

Atgoffodd yr Aelodau fod y rhaglen gyfalaf a gymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Chwefror 2021 ar gyfer y cyfnod 2020-21 hyd 2030-31 yn gyfanswm o £205.732 miliwn, yr oedd £116.147 miliwn i gael ei dalu o gronfeydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (CBSPO), gan gynnwys derbyniadau cyfalaf a chyfraniadau refeniw o gronfeydd wedi'u clustnodi, a'r £89.585 miliwn a oedd yn weddill o adnoddau allanol, gan gynnwys y Grant Cyfalaf Cyffredinol.

Fel y soniwyd yn yr adroddiad, derbyniwyd nifer o gynigion am gynlluniau cyfalaf newydd, ac mae'r Cabinet a'r Bwrdd Rheoli Corfforaethol wedi ystyried a threfnu'r rhain yn ôl blaenoriaeth, yn unol â Strategaeth Gyfalaf y Cyngor. Neilltuwyd cyllid ar gyfer y cynlluniau hyn drwy gronfeydd newydd wedi'u clustnodi, a sefydlwyd yn ystod proses diwedd blwyddyn 2020-21, o gyllid cyfalaf cyffredinol nad oedd wedi'i neilltuo a dderbyniwyd drwy Setliad Llywodraeth Leol 2021-22, ac o gyllid refeniw cronfa tir y cyhoedd ar gyfer blwyddyn ariannol 2021-22. Yn ogystal â hynny, roedd angen cynnwys un cynllun ysgol hefyd yn y rhaglen gyfalaf, a ariennir yn rhannol o gyllidebau a ddirprwyir i ysgolion ac yn rhannol drwy fenthyciad di-log Salix, i'w ad-dalu gan yr ysgol.

Cyfanswm cost y cynlluniau newydd oedd £4,552,271, a dadansoddwyd hyn yn Nhabl 1 yr adroddiad, gyda Thabl 2 yn dangos dadansoddiad o'r cyllid ar gyfer y cynlluniau arfaethedig.

Manylwyd ar wybodaeth bellach am y cynlluniau, ym mharagraff 4.4 o'r adroddiad, ac roedd peth o'r wybodaeth yn ychwanegu'r Prif Swyddog Dros Dro - Cyllid, Perfformiad a Newid.

Yn eu tro, cymeradwyodd y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet - Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol rai o'r prosiectau a restrwyd - y cyntaf, sef ailosod system TCC newydd a'r olaf, y cyfleusterau ychwanegol a ddarparwyd gan Ymddiriedolaeth Arwen a Halo yn eu hadeiladau, a fyddai o fudd i rai â phroblemau symud, a chynigion i ddarparu cyfarpar sugno gylïau ac adnewyddu caeau chwarae.

Cymeradwyodd Aelod y ffaith bod paneli solar yn cael eu gosod yn Ysgol Litchard, a gofynnwyd a oedd bwriad i wneud hynny mewn ysgolion eraill a chanddynt ddiddordeb yn hynny, yn enwedig y rhai hynny na allai fforddio dalu am gynllun o'r fath o'u cyllidebau eu hunain.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Chymorth i Deuluoedd y gallai roi diweddariad i'r Aelod ynghylch yr uchod y tu allan i'r cyfarfod.

Dywedodd y Dirprwy Bennaeth Cyllid Dros Dro fod y Rhaglen Gyfalaf yn cynnwys Cynllun Arbed Ynni i ystyried arbedion effeithlonrwydd ynni mewn adeiladau Cyngor, gan gynnwys ysgolion.
Roedd hyn hefyd yn cynnwys paneli solar ar ysgolion ac ar adeiladau eraill.

PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r Rhaglen Gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2020-21 hyd 2030-31 (yn Atodiad A i'r adroddiad).

549. ADRODDIAD GWYBODAETH I'W NODI

Trafododd y Prif Swyddog Cyfreithiol, AD a Gwasanaethau Rheoleiddio a'r Swyddog Monitro ar yr Adroddiad Gwybodaeth a oedd wedi cael ei gyhoeddi ers cyfarfod diwethaf y Cyngor.

Holodd Aelod ynghylch gohirio'r Rheolau Gweithdrefn Contractau perthnasol a oedd yn gysylltiedig â phenderfyniad a wnaed ynghylch costau Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol. Gofynnodd a fyddai'n briodol gofyn i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol edrych yn ôl ar y broses, er mwyn cadarnhau bod y drefn gywir wedi'i dilyn yn gysylltiedig â'r penderfyniad neilltuol hwn.

Dywedodd y Prif Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Rheoleiddio y gallai ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu uchod, neu'r Aelod ei hun, i esbonio pam bod y Rheolau Gweithdrefn Contractau wedi cael eu hatal yn yr achos hwn, gan weithredu o dan ddarpariaeth berthnasol y Cynllun Dirprwyo (Swyddogaethau).

PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor yn cydnabod cyhoeddi'r ddogfen a nodwyd yn yr adroddiad.

550. DERBYN Y CWESTIYNAU CANLYNOL GAN:

**Y Cynghorydd Ross Penhale-Thomas i'r Arweinydd**

Beth mae'r awdurdod lleol yn ei wneud er mwyn helpu i fynd i'r afael â thlodi ac anfantais ar draws ein cymunedau yma ym Mhen-y-bont ar Ogwr?

1. Ar lefel strategol, mae'r Cyngor wedi nodi yn ei Gynllun Corfforaethol dri amcan llesiant sy'n anelu i'n helpu i fynd i'r afael â thlodi a rhai sydd dan anfantais ar draws ein cymunedau ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Dyma nhw:

    - Cefnogi economi lwyddiannus a chynaliadwy
    - Helpu pobl a chymunedau i fod yn fwy iach a gwydn
    - Defnydd doethach o adnoddau

2. Mae'r amcanion hyn hefyd yn dangos ymrwymiad y Cyngor tuag at y saith nod llesiant, a gyflwynwyd yn sgil Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac yn ymwreiddio'r egwyddorion datblygu cynaliadwy a geir yn y Ddeddf.

3. Yn ychwanegol at yr amcanion a nodwyd yn y Cynllun Corfforaethol, a'r rhai yng Nghynllun Llesiant Sir Pen-y-bont ar Ogwr, mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau cydymffurfiaeth â'r **Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol**. O 1 Ebrill 2021, mae'n ofynnol i wasanaethau cyhoeddus feddwl sut y gall eu penderfyniadau

strategol, ee wrth osod amcanion a datblygu gwasanaethau cyhoeddus, sicrhau canlyniadau tecach i bobl sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol. Gofynnir i'r holl feysydd gwasanaeth ar draws y Cyngor ystyried hyn, ac mae ein gweithdrefnau adrodd wedi cael eu diweddaru i sicrhau dealltwriaeth lawn o'r cwestiynau a'r ymatebion hyn.

4. Un o'r enghreifftiau sy'n dangos y modd y mae'r Cyngor yn cyflawni yn erbyn ein hymrwymiad i fynd i'r afael â thlodi a phobl dan anfantais ar draws ein cymunedau yw Rhaglen Cyflogadwyedd Pen-y-bont ar Ogwr. Mae Cyflogadwyedd Pen-y-bont ar Ogwr yn helpu cyfranogwyr dan anfantais o bob rhan o'r sir, lle bynnag y bônt, drwy gynnig cyfres o ymyraethau sy'n anelu i dorri patrymau diffyg gwaith a thlodi dros sawl cenhedlaeth. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Meithrin sgiliau meddal a hyder i greu mwy o gydnerthedd ac annibyniaeth
- Cynnig gwella sgiliau i gynyddu cyflogadwyedd
- Cymorth i chwilio am swydd a'i chadw
- Darparu cyfrifiaduron glin a donglau wi-fi er mwyn helpu i oresgyn rhwystrau i lythrennedd digidol a mynediad digidol
- Cefnogaeth ar gyfer lleoliadau gwirfoddoli i leihau unigrwydd cymdeithasol a rhyngweithio â chymunedau - sydd hefyd yn rhoi profiad gwaith i'w gynnwys ar CV.

4.1 Hyd yma, mae'r rhaglen wedi sicrhau dros 1200 o ganlyniadau swydd.

5. Enghraifft arall yw'r Gwasanaeth Cyngor a Chymorth Ariannol (FASS) a gomisiynwyd gan y Cyngor ac a ddarperir gan Cyngor ar Bopeth. Dyluniwyd y gwasanaeth yn benodol gennym i ymdrin â'r ystod o broblemau'n gysylltiedig â thlodi, ac mae'n cynnwys rhoi cymorth yn yr holl feysydd canlynol:

- Problemau dyled ac anhawster ariannol
- Diweithdra (hawlio budd-daliadau, gan gynnwys Credyd Cynhwysol (CC))
- Methiant i gyllidebu neu reoli materion ariannol yn effeithiol
- Rhai sy'n profi 'tlodi mewn gwaith'
- Rhai sydd angen gwybodaeth a chymorth i gynnal cyfrifiadau 'ar eich ennill'.

5.1 Mae FASS wedi bod yn allweddol wrth roi cymorth i'r rhai dan anfantais o ganlyniad i'r pandemig, yn enwedig y rhai sydd wedi'u cael eu hunain mewn trafferthion ariannol, lle'r oedd 80% o'u hincwm wedi'i dalu drwy'r cynllun ffyrlo, ond nad oedd hynny'n anffodus yn ddigon i dalu costau eu haelwyd.

6. Dim ond dwy enghraifft yw'r rhain o'r modd y mae'r Cyngor yn helpu i fynd i'r afael â thlodi a phobl dan anfantais ar draws ein cymunedau ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Mae amrywiaeth o gymorth arall ar gael sy'n cynnwys:

- **cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor** - cymorth i breswylwyr ar incwm isel i dalu eu treth gyngor. Yn ogystal â hyn, cynigiodd y Cyngor opsiynau hyblyg i breswylwyr dalu'r dreth Gyngor y llynedd, a pharhau i alluogi pobl i dalu dros gyfnod hwy, ac mae nodynnau atgoffa'r Dreth Gyngor yn cyfeirio pobl i dderbyn cymorth oddi wrth Step Change, Y Gwasanaeth Cynghori Ariannol, Undeb Credyd Lifesavers Pen-y-bont ar Ogwr a Chyngor ar Bopeth, y mae rhai ohonynt yn helpu gyda phroblemau'n gysylltiedig â thlodi.

- **cyngor ar dai a chymorth digartrefedd**- gall trigolion sydd mewn perygl o fod yn ddigartref, neu sydd yn ddigartref, gysylltu â ni'n uniongyrchol neu drwy borthol Housing Jigsaw i gael gwybod am yr amrywiaeth o gymorth sydd ar gael, a dilyn eu cynllun tai personol i'w helpu i sicrhau llety.

- **cymorth budd-daliadau tai**

- datblygu **Fframwaith Dyfodol Economaidd** newydd y fwrdeistref sirol a fydd yn cynnig gweledigaeth strategol hirdymor ar gyfer ein huchelgais o ran twf economaidd, ac yn nodi'r camau â blaenoriaeth i'w cyflawni gan y Cyngor yn y misoedd nesaf, gyda ffocws ar gefnogi ein hadferiad economaidd.

- datblygu **strategaethau caffael** a all roi hwb i'r economi sylfaenol a chreu cyfoeth o fewn ein cymunedau lleol

- **cyfleoedd prentisiaeth**.

6.1 Mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd ei drefniadau partneriaeth a'i gydweithrediad â rhanddeiliaid allweddol, er enghraifft drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Roedd y cydweithredu traws-sector hwn yn hollbwysig i'n hymateb yn ystod y pandemig. Drwy'r rhaglen Cymunedau Cydnerth, dros y flwyddyn ddiwethaf, cynigiodd 1300 o wirfoddolwyr i helpu i gefnogi dros 4444 o unigolion ar draws nifer o feysydd, gan gynnwys iechyd meddwl, gorbryder, diogelwch ariannol, camddefnydd o alcohol a sylweddau a gostyngiad mewn symudedd/bregusrwydd.

7. I gloi, os byddwn yn canolbwyntio ar y cymorth sydd ar gael gan un o'n Cyfarwyddiaethau, sef y **Gyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd**, er mwyn helpu i ymdrin â thlodi a phobl dan anfantais ar draws ein cymunedau ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, gellir gweld ehangder a chyfoeth y cymorth sydd ar gael yn glir.

**8. Cymorth Busnes**

Mae arlwywyr ysgolion ac awdurdodau lleol yn annog pobl i fanteisio ar brydau ysgol am ddim, ac rydym yn cydgysylltu darpariaeth parseli bwyd prydau ysgol am ddim yn ystod cyfnodau gwyliau'r ysgol.

**9. Cymorth i Deuluoedd**

Mae Dechrau'n Deg yn rhoi cymorth a chefnogaeth yn rhad ac am ddim i blant dan bedair oed mewn ardaloedd penodol. Ei nod yw rhoi gwell siawns iddynt a 'dechrau teg' wrth fynd i'r ysgol, gyda'r cymorth canlynol:

- Gofal plant rhan-amser o ansawdd uchel (hyd at 30 awr) i blant bach dwy a thair oed;
- ymwelydd iechyd a Gweithiwr Cymorth i Deuluoedd i roi cymorth dwys i'r teuluoedd hynny y tu allan i god post cymwys Dechrau'n Deg;
- mynediad at gymorth magu plant; a
- chymorth gyda datblygiad ieithyddol cynnar

Rhaglen addysg a gynhelir mewn ysgolion yw'r Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau Ysgol. Mae'n darparu sesiynau addysg bwyd a maeth, gweithgareddau corfforol, cyfoethogi a phrydau iach i blant dros wyliau haf yr ysgolion mewn ardaloedd lle ceir amddifadedd cymdeithasol.

Caiff staff eu hyfforddi i ddarparu 'GroBrain' yn ystod beichiogrwydd ar ôl yr enedigaeth er mwyn helpu rhieni i ddeall sut i wella'r ymlyniad rhyngddyn nhw a'u plentyn, ac i greu cysylltiadau cadarnhaol yn ymennydd eu babi.

Rhaglen meithrin - cymorth magu plant i rieni plant dan 5 oed fel arfer, yn gweithio ar gryfderau'r plentyn ac yn dathlu eu rhinweddau, sy'n gwella ymlyniad a pherthnasoedd o fewn y teulu.

Gwasanaeth gwirfoddol yw Cymorth Cynnar, sy'n anelu i roi'r cymorth cywir i unigolion a'u teuluoedd i'w helpu i newid er gwell. Mae'r gwasanaeth yn canolbwyntio ar:

- siarad am gryfderau yn ogystal ag agweddau y gellid eu gwella;
- cael y cymorth cywir i chi ar yr adeg gywir;
- dod â thîm o'r bobl iawn ynghyd a all helpu eich teulu;
- gwrando arnoch chi a rhoi dewis i chi; a
- chymorth i fagu plant/cymorth iechyd meddwl/mynediad at gyllid a budd-daliadau perthnasol/tai

- Darparu sesiynau dulliau gwrthsefyll di-drais wrth fagu plant/meithrin perthynas.

- Cymorth llesiant i blant oed cynradd, gan ddarparu ymyrraeth wedi'i thargedu i gefnogi perthnasoedd o fewn y teulu, gwella presenoldeb yn yr ysgol a lleihau nifer y profiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACEs).

- Mae Ysbrydoli i Weithio yn helpu pobl ifanc (16 i 25 oed) sydd bellaf i ffwrdd o'r farchnad lafur i ganfod a chael swydd berthnasol er mwyn gwella amgylchiadau byw yr unigolyn.

- Mae'r fenter Urddas Mislif yn darparu cynnyrch mislif yn rhad ac am ddim i blant a phobl ifanc o gymunedau amddifadus a difreintiedig er mwyn helpu i'w helpu i gefnogi eu hymglymiad yn yr ysgol, ymhlith agweddau eraill.

**10. Cymorth i Ddysgwyr**

- Mae Gwasanaeth Seicoleg Addysg Pen-y-bont ar Ogwr yn cyflawni rôl weithredol a phwysig er mwyn helpu ein teuluoedd, ein plant a'n pobl ifanc sy'n wynebu'r mwyaf o anfantais. Rydym yn cydweithio'n agos â theuluoedd ac asiantaethau eraill fel y gwasanaethau cymdeithasol, iechyd ac elusennau'r trydydd sector fel Barnardo's, fel ein bod yn deall y rhwystrau, y cyd-destun ehangach ac yn canfod y gefnogaeth orau i'n plant a'n pobl ifanc.

- Rydym yn gwneud cyfraniad i'r rhaglen Dechrau'r Deg ar draws yr awdurdod lleol ar gyfer Seicolegydd Addysg y Blynyddoedd Cynnar, sy'n hybu iechyd a llesiant cadarnhaol ymhlith teuluoedd a chymunedau sy'n agored i niwed. Mae rôl y seicolegydd addysg yn cynnwys nodi anghenion dysgu ychwanegol a rhoi cymorth a chyngor uniongyrchol i deuluoedd ac ymarferwyr. Mae hyn yn cwmpasu gwaith a chyngor cydweithredol i roi cymorth gofal plant i deuluoedd â phlant lle mae anghenion dysgu ychwanegol yn dod i'r amlwg.

- Gwasanaeth Cynghori Portage, sy'n gweithio gyda theuluoedd i'w helpu i ddatblygu ansawdd bywyd a phrofiadau iddynt hwy a'u plant, lle gallant ddysgu a chwarae gyda'i gilydd. Rydym yn darparu hyfforddiant a gwasanaeth ymgynghori a chynghori Cynorthwyydd Cymorth Llythrennedd Emosiynol (ELSA) a THRIVE er mwyn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar.

- Mae Gwasanaeth Seicoleg Addysg Pen-y-bont ar Ogwr yn arwain Cymru wrth ddatblygu hyfforddiant ACE i ysgolion a lleoliadau ar ran Llywodraeth Cymru. Rydym yn cefnogi codi ymwybyddiaeth ynghylch ACEs a chydnabod trawma a brofir gan blant a'u teuluoedd, drwy hyfforddiant uniongyrchol, trafodaeth, cefnogaeth a gwrando ar leisiau eraill. Mae hyn yn cynnwys staff sydd hefyd wedi profi colled a thrawma, ond sydd hefyd yn gweithio gyda'r plant a'r bobl ifanc mwyaf difreintiedig a bregus. Rydym yn codi ymwybyddiaeth ynghylch amrywiaeth a'r agenda duedd i egluro'r canfyddiad o angen a hyrwyddo trafodaeth bellach ymysg staff sy'n cefnogi ein plant a'n pobl ifanc.

- Mae Gwasanaeth Seicoleg Addysg Pen-y-bont ar Ogwr yn cyflawni rôl allweddol wrth adnabod ADY o enedigaeth hyd at 19 oed, a bydd hyn bellach yn cael ei ymestyn i 25 o dan gynlluniau i ddiwygio'r ddarpariaeth ADY. Rydym yn rhoi cymorth i ddisgyblion sydd wedi profi gofal, a'r rhai ag unrhyw anghenion ychwanegol, gan adeiladu capasiti ysgolion drwy hyfforddiant, therapi uniongyrchol a goruchwylio a chefnogi llesiant emosiynol. Rydym wedi datblygu ac yn goruchwylio hyfforddiant, darpariaeth a goruchwyliaeth ELSA ac offeryn proffil llesiant PERMA a all dynnu data uniongyrchol ynghyd a chefnogi grwpiau sy'n agored i niwed (ee, y plant hynny sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim). Mae gennym ELSAs bron ym mhob ysgol ym Mhen-y-bont ar Ogwr, ac eleni rydym wedi sefydlu 20 o ysgolion ar offeryn proffil llesiant PERMA, yn rhan o'r peilot llesiant sy'n cael ei gynnal ar draws y consortiwm, ac mae'r peilot hwnnw'n dal i gael ei ehangu.

- Mae'r Tîm Cymorth Dysgwyr yn cydweithio ag ymagwedd y Gwasanaeth Iechyd Gwladol(GIG)/Cymorth i Ddysgwyr wrth gefnogi ysgolion meithrin yn ardaloedd Dechrau'n Deg ar draws yr awdurdod lleol, er mwyn hyrwyddo asesu, nodi a chefnogaeth gynnar drwy'r rhaglen WellComm. Cynigir hyfforddiant, sesiynau galw heibio, ymweliadau ag ysgolion a chyngor a chymorth, ac mae'r rhain ar gael yn rhithiol.

- Mae'r Tîm Cymorth i Ddysgwyr yn rhoi cyngor a chymorth i ysgolion ar gyfer ymdrin â disgyblion ag anawsterau iaith a lleferydd, gan gynnwys gwahaniaethu. Yn ogystal â hyn, mae aelodau o'r tîm yn darparu rhaglenni iaith a lleferydd y GIG i nifer fach o ddisgyblion unigol a chanddynt anawsterau iaith ac/neu leferydd sylweddol mewn ysgolion ar draws y fwrdeistref, gan gynnwys y rhai hynny mewn ardaloedd Dechrau'n Deg.

- Mae'r Tîm Cymorth i Ddysgwyr yn darparu cymorth ategol i ddisgyblion ag anawsterau emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol cymhleth, anhwylder ar y sbectrwm awtistiaeth ac anawsterau iaith a lleferydd.

- Mae'n gweithio mewn modd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, fel bod gan bob dysgwr lais, a bod anghenion y disgybl yn greiddiol i unrhyw gynllun addysg a nodir.

**11. Cefnogaeth i Ysgolion**

- Mewn partneriaeth â Chonsortiwm Canolbarth y De, mae'r awdurdod lleol yn dyrannu cyllid grant (ee, y grant datblygu disgyblion) i ysgolion yn yr ardal, ynghyd â chanllawiau a chyngor ynghylch sut y gellir defnyddio cyllid grant i ysgogi gwelliant.

- Mae partneriaid gwella sy'n gweithio gyda phob ysgol ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn cynnig cymorth fel bod ysgolion yn gwneud defnydd effeithiol o'r cyllid mewn modd sy'n gwneud gwahaniaeth i blant unigol. Gofynnir yn benodol i ysgolion feddwl sut y gellir defnyddio'r cyllid i wella sgiliau llythrennedd a rhifedd y disgyblion, a hefyd i gynnig gweithgareddau cyfoethogi.

- Cynigir cyfleoedd dysgu proffesiynol i ysgolion yn gysylltiedig â'r egwyddor o ddatblygu tegwch a rhagoriaeth i'n holl ddysgwyr. Mae'r awdurdod lleol wedi cyfrannu at fersiwn gyntaf ac ail ddrafft strategaeth 'Tegwch a Rhagoriaeth' Consortiwm Canolbarth y De.

- Mae ysgolion ym Mhen-y-bont ar Ogwr wedi gwneud defnydd effeithiol o'r cyllid o'r cychwyn cyntaf. Mae deilliannau i ddisgyblion â hawl i dderbyn cyllid ychwanegol yn well na'r hyn a geir mewn awdurdodau lleol eraill tebyg. Mae hyn yn adlewyrchu'r pwyslais cryf y mae holl ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr wedi'i roi ar wneud gwahaniaeth i ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

- Mae'r awdurdod lleol wedi cefnogi disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim drwy ddarparu dyfeisiau digidol ac offer MiFi, lle bo angen, i sicrhau bod y 'bwlch digidol' yn cau.

**12. Moderneiddio Ysgolion**

- Rydym yn ceisio cyfleoedd am hyfforddiant a phrofiad gwaith drwy brosiect adeiladu gyda'r contractwyr. Yn ogystal â hynny, fel awdurdod lleol wedi'i enwi ar Fframwaith SEWSCAP, gall ein prosiectau adeiladu bellach gyfeirio pobl i dderbyn hyfforddiant drwy'r Academi Hyfforddiant Adeiladu Ar-safle, sy'n cynnig cyfle unigryw, gan ddod â phartneriaid cymorth cyflogaeth a chyflogwyr ynghyd i sicrhau gyrfaoedd cynaliadwy ar draws rhanbarth de ddwyrain Cymru. Mae hyn o fydd i geiswyr swydd, myfyrwyr diplomas adeiladu ar diwydiant adeiladu ei hun, gan greu cyflenwad o weithwyr lleol hyfforddedig i lenwi swyddi mewn sector sy'n ehangu o hyd.

**Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd Ross-Penhale Thomas**

I ba raddau y mae'r awdurdod lleol ar hyn o bryd yn cynnwys pobl sydd wedi profi tlodi yn eu bywyd, yn ei brosesau penderfynu, ac a wnaiff yr Arweinydd ystyried y posibilrwydd o sefydlu Comisiwn Gwirionedd Tlodi ym Mhen-y-bont ar Ogwr, fel y ceir mewn lleoliadau eraill, er mwyn inni gael datguddio a bod yn dryloyw ynghylch realiti a heriau tlodi, a chydweithio er mwyn cyd-greu atebion ar gyfer problem sy'n bodoli go iawn.

**Ymateb**

Yn sicr, gallwn ystyried yr awgrym hwnnw, hy ceisio sefydlu Comisiwn o'r fath ac ystyried sut mae ardaloedd eraill wedi'i ddefnyddio, a pha effaith wirioneddol y mae hynny wedi'i gael ar rai sy'n profi tlodi yn eu bywyd. Bydd CBSPO bob amser yn ceisio ymgysylltu'n agos â phob unigolyn ledled y Fwrdeistref Sirol, gan gynnwys rhai sydd mewn tlodi, er mwyn gwella ein gwasanaethau a'r modd yr ydym yn eu darparu. Mae Dechrau'n Deg a'r Gwasanaeth Cyflogadwyedd ymhlith enghreifftiau o wasanaethau o'r

fath. Mae'r ddau yn enghraifft o ymgysylltu'n llwyddiannus drwy estyn allan i'n hetholwyr. Serch hynny, mae lle bob amser i wneud mwy a cheisio gwella gwasanaethau ac ymgysylltu ar draws y Fwrdeistref Sirol, gan gynnwys mewn ardaloedd lle ceir tlodi ac anfantais.

**Ail gwestiwn atodol gan y Cynghorydd Jon-Paul Blundell**

Pa gamau a gymerwyd i fynd i'r afael â thlodi bwyd a'r rhai sydd dan anfantais yn CBSPO, drwy'r rhaglen prydau ysgol am ddim.

**Ymateb**

Bydd yr aelodau'n ymwybodol o'r ddarpariaeth a roddwyd ar waith er mwyn sicrhau nad oedd unrhyw blentyn yn llwglyd ar ddechrau'r pandemig. Darparwyd pecynnau bwyd i ginio a pharseli bwyd, ac mae'r parseli bwyd yn dal i gael eu darparu gyda chymorth Llywodraeth Cymru. Gwnaed hyn nid yn unig yn ystod y tymor ysgol ond yn ystod gwyliau'r ysgol hefyd. Cafwyd adborth cadarnhaol gan rieni o ganlyniad i hyn, gyda miloedd o deuluoedd yn elwa ar y cymorth a gyrhaeddodd dros 5,000 o blant. Roedd y Cyngor hefyd yn ceisio annog mwy o bobl i gofrestru i dderbyn prydau ysgol am ddim, ac roedd hyn yn flaenoriaeth wrth symud ymlaen, gan fod rhai teuluoedd heb fod yn hawlio prydau ysgol am ddim er eu bod yn gymwys i'w derbyn. Roedd rhai bellach yn gymwys o ganlyniad i'r pandemig ac wedi i aelodau o'r teulu golli swydd. Roedd Llywodraeth Cymru hefyd yn ariannu Rhaglen Cyfoethogi'r Ysgolion, er mwyn i hyd yn oed mwy o blant allu elwa eleni, drwy gyfleoedd chwarae a dysgu yn ystod gwyliau'r ysgol. Roedd hyn yn cynnwys pryd iach a maethlon amser cinio, er mwyn annog plant i fwyta'n iach o oed ifanc.

**Trydydd cwestiwn atodol gan y Cynghorydd S Dendy**

Yn adroddiad adfywio'r cymoedd 2019, rhoddir trosolwg o'r problemau a wynebir mewn ardaloedd i'r gogledd o'r M4, gan gyfeirio hefyd at y ffaith bod ardal 'Y Cymoedd' yn cynnwys 13 o ardaloedd cynnyrch ehangach haen is, sydd ymhlith 20% o'r ardaloedd mwyaf amddifadus yng Nghymru.

Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at rai ffeithiau syfrdanol:

Bod gan 27% o bobl yng Nghwm Garw salwch hirdymor sy'n cyfyngu ar eu bywyd, a’u bod yn profi cyfyngiadau ar fynediad at ddarpariaeth gofal iechyd.

Nad oes gan 35% o oedolion yng Nghwm Garw ei hun unrhyw gymwysterau.

Bod prinder difrifol o gyfleoedd am swyddi yn y Cymoedd.

Bod adeiladau mawr gwag sydd wedi mynd a'u pen iddynt yn hagru ardaloedd, gan amharu ar lesiant meddyliol ac ar falchder cymunedau.

A'r angen dybryd am drafnidiaeth gyhoeddus, gyda 27% o aelwydydd yng Nghwm Garw ei hun heb gar a, fel y gwyddom dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r cymorthdaliadau wedd cael eu cwtogi a nifer y llwybrau teithio wedi gostwng.

Er bod yr ystadegau hyn yn berthnasol i Gwm Garw, mae cymunedau Ogwr a Llynfi y wynebu'r un problemau.

Mae hyn oll yn cyfrannu at greu tlodi yn y cymunedau hyn. A yw'r Cyngor wedi ymrwymo i gyflawni'r fframwaith hwnnw, drwy ymdrin â'r problemau sy'n cyfrannu at y tlodi a brofir yn y cymunedau hyn?

**Ymateb**

Rwy'n cytuno'n llawn â rhai o'r pwyntiau teg a godwyd. Mae enghreifftiau fel yr uchod wedi amharu ar ein cymunedau ers cenedlaethau, yn enwedig colli'r diwydiant glo fu'n ergyd aruthrol i rai ardaloedd yn y cymoedd. Roedd hi'n anodd adfer cymunedau ar ôl hyn, er ein bod o hyd yn ystyried sut i wneud hynny. Un o'm hadegau mwyaf balch ers dod yn Arweinydd, oedd gweld yr Awdurdod yn agor dwy ysgol newydd ym Metws - un ysgol cyfrwng Saesneg ac un ysgol cyfrwng Cymraeg - y swm mwyaf erioed a fuddsoddwyd yng Nghwm Garw. Rwyf hefyd yn falch iawn o weld pobl ifanc yn elwa ar gyfleusterau o'r radd flaenaf yng Ngholeg Cymunedol y Dderwen, lle caiff plant o Fro Ogwr a Bro Garw eu haddysgu. Pleser hefyd yw cael cyhoeddi y byddwn yn cynnal seremoni a fydd yn torri tir newydd yr wythnos hon ar gyfer cyfleuster gofal plant newydd cyfrwng Cymraeg ym Melin Ifan Ddu, ac rydym hefyd yn datblygu cyfleuster tebyg yng Nghwm Garw. Y rheswm am hyn yw bod ymchwil a thystiolaeth yn dangos y gall problemau gofal plant fod yn rhwystr o bwys sy'n atal rhieni rhag manteisio ar gyfleoedd cyflogaeth a dyrchafiad yn y gwaith. Byddai'r rhain yn bodloni angen dybryd am drefniadau gofal plant gwell yng Nghwm Ogwr/Garw, fel y nodwyd yn yr Arolwg Gofal Plant Blynyddol diwethaf. Enghreifftiau o ddatblygiadau adfywio yw'r uchod, ond o safbwynt ehangach maent hefyd yn cynrychioli dilyniant addysgol. Roedd y Cyngor hefyd yn ystyried gwelliannau i'r seilwaith trafnidiaeth ar draws lleoliadau'r cymoedd, gan ystyried datblygu Hyb a chyfleuster trafnidiaeth ar safle Heol Ewenni, Maesteg, a oedd wedi cael ei gefnogi yn rhan o fenter Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

**Y Cynghorydd Tim Thomas wrth yr Aelod Cabinet - Cymunedau**

Pa ganran o hawliau tramwy cyhoeddus y Fwrdeistref Sirol sydd yn hygyrch i'r cyhoedd ac yn cyrraedd safon foddhaol?

**Ymateb**

Mae gan Ben-y-bont ar Ogwr 800 o hawliau tramwy cyhoeddus unigol a chyfanswm hyd y rhwydwaith yw 613.72km. Mae'r llwybrau hyn yn cynnwys Llwybrau Troed Cyhoeddus (84% o'r rhwydwaith), Llwybrau Ceffylau Cyhoeddus (14.6%), Cilffyrdd Cyfyngedig (0.1%) a Chilffyrdd sydd ar agor i Bob Traffig (1.3%).

Mae gan y Cyngor Bwrdeistref Sirol gyfrifoldeb cyffredinol dros gynnal a chadw'r rhwydwaith, a dyletswydd hefyd i warchod hawliau'r cyhoedd i ddefnyddio'r rhwydwaith, ac i atal rhwystrau ar lwybrau. Fodd bynnag, mae cyfrifoldeb hefyd ar dirfeddianwyr yn yr ystyr eu bod fel arfer yn gyfrifol am gynnal a chadw strwythurau, hy, camfeydd, giatiau mochyn, giatiau cae ac ati, ar lwybrau, er bod modd iddynt adennill rhai costau gan y Cyngor am hyn.

Drwy Raglen Cymru ar gyfer Gwella, roedd hi'n arfer bod yn ofynnol i'r Cyngor adrodd yn flynyddol ar gyflwr y rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus drwy ddefnyddio Dangosydd Perfformiad a fabwysiadwyd yn genedlaethol, sef 'Llwybrau sy'n rhwydd i'w defnyddio'. Rhoddwyd y gorau i adrodd yn genedlaethol ar y Dangosydd tua 8 mlynedd yn ôl, er iddo gael ei adrodd yn fewnol am rai blynyddol wedi hynny, gan gynnal yr arolwg hapsampl 5% olaf yn 2016. Er hynny, cynhaliodd y Cyngor arolwg o'r rhwydwaith cyfan y llynedd wrth baratoi i adolygu Cynllun Gwella Hawliau Tramwy'r Cyngor.

Mae gwybodaeth o'r arolwg hwnnw wedi cael ei dadansoddi, a dyma'r canlyniadau:

- Mae 69.5% o gyfanswm y llwybrau sydd wedi'u pennu'n llwybrau sydd ar gael i'w defnyddio, tra bo

- 59.5% o gyfanswm hyd y llwybrau wedi'u pennu'n llwybrau sydd ar gael i'w defnyddio.

Mae'n amhosib dweud ar unrhyw bryd pa lwybrau sydd ar gael, gan fod y sefyllfa, oherwydd natur y llwybrau eu hunain, yn newid o hyd. Am sawl rheswm, gallai llwybr a ystyrir yn llwybr y gellir cerdded ar ei hyd y naill ddiwrnod, fod yn annefnyddadwy y diwrnod nesaf am amrywiaeth o resymau. Gall tirfeddiannwr diegwyddor rwystro llwybr yn fwriadol, neu gall llwybrau dyfu'n wyllt, neu gall strwythurau ddadfeilio gan nad ydynt yn cael eu defnyddio neu eu cynnal yn ddigonol, hyd yn oed o fewn cyfnod byr.

Ar ôl cael gwybod am unrhyw un o'r problemau hyn, byddwn yn ceisio datrys ac ailagor llwybrau cyn gynted ag sy'n bosibl. Rydym yn gweithio gyda thirfeddianwyr i gael gwared â rhwystrau a thrwsio strwythurau a chyda llawer o Gynghorau Tref a Chymuned a chanddynt Gytundebau Asiantaeth â ni i gael gwared â llystyfiant. Fodd bynnag, rydym wedi gweld cynnydd lluosog yn y defnydd o'r rhwydwaith hawliau tramwy ers dechrau'r pandemig, ac mae ein swyddog cynnal a chadw wedi gweld cynnydd yn nifer y problemau yr adroddir amdanynt, yn ychwanegol at orfod ymdrin â chanlyniadau'r arolwg o'r rhwydwaith cyfan.

Er nad yw'r Dangosydd Perfformiad yn cael ei adrodd yn genedlaethol mwyach, gwnaed ymdrech i gysylltu â thimau Hawliau Tramwy eraill ledled Cymru i ganfod beth yw eu sefyllfa bresennol. O'r nifer fach o ymatebion a gafwyd hyd yma, dim ond un awdurdod sydd wedi penderfynu parhau i gasglu'r data hynny, gyda'r gweddill yn nodi nad ydynt wedi gwneud oherwydd diffyg adnoddau.

O ran hygyrchedd i bobl â phroblemau symud, mae'r is-adran hawliau tramwy wedi cyflwyno gwelliannau lle bo cyllid ar gael, ac mae'n parhau i wneud hynny, yn arbennig drwy ddefnyddio cyfalaf mewnol a chyllid grant oddi wrth Lywodraeth Cymru neu grwpiau eraill fel Y Cerddwyr. Roedd hyn yn cynnwys cael gwared â chamfeydd a gosod giatiau mochyn, a chyflwyno gwelliannau i wynebau lle bo modd. Dylid cofio bod rhan helaeth o'r rhwydwaith hawliau tramwy yn croesi tir amaethyddol, a bod eu harwynebedd felly ar ffurf naturiol, a heb ei wynebu. Ar ben hynny, mae'n rhaid i strwythurau fod wedi'u diogelu rhag da byw.

**Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd. T Thomas**

Rwy'n cydnabod bod tirfeddianwyr yn rhwystro rhai Hawliau Tramwy, gan gynnwys rhai ym Mhorth y Cymoedd. Mae hon yn broblem sy'n bodoli ers tro ac yn destun rhwystredigaeth, yn enwedig wrth fynd ar drywydd cwynion yn gysylltiedig â hyn drwy broses atgyfeirio'r aelodau. A wnaiff yr Aelod Cabinet - Cymunedau ymuno â mi ac amryw o etholwyr i gerdded ar hyd y llwybrau hyn i weld y problemau ac ystyried sut i'w datrys?

**Ymateb**

Gwnaf wrth gwrs. Cysyllta â mi a gallwn drefnu dyddiad addas ar gyfer hyn.

**Ail gwestiwn atodol gan y Cynghorydd Ken Watts**

Lle bo tystiolaeth o or-aredig llwybrau troed, a allaf gael sicrwydd y bydd camau'n cael eu cymryd i adfer y llwybrau, neu fod Gorchmynion Gwyro yn cael eu sefydlu yn lle hynny. Rwyf wedi cael atgyfeiriad(au) gan Aelod ynghylch hyn hefyd.

**Ymateb**

Os rhowch fanylion pellach am hyn imi, gan gynnwys yr atgyfeiriad, byddaf yn ymchwilio i'r mater ar eich rhan.

**Trydydd cwestiwn atodol gan y Cynghorydd Sorrel Dendy**

O ran hygyrchedd i Hawl Tramwy Cyhoeddus, mae rhai llwybrau ar dir garw. A oes modd sefydlu system raddio, fel bod pobl sy'n ystyried mynd arnynt yn ymwybodol o'u hyd a'u goledd ac ati. Rydym yn ystyried hyn yn achos llwybrau troed yng Nghwm Garw, fel bod aelodau o'r cyhoedd yn ymwybodol o gyflwr y llwybrau troed hynny, ac ystyried eu lefelau ffitrwydd a'u gallu i gerdded ar eu hyd.

**Ymateb**

Gan nad oes gennyf wybodaeth am hyn wrth law, er mwyn rhoi ymateb manwl ichi, byddaf yn cyfeirio'r mater hwn i'w ystyried gan y Swyddog Hawliau Tramwy Cyhoeddus, a byddaf finnau neu yntau'n cysylltu eto â chi y tu allan i'r cyfarfod.

551. EITEMAU BRYS

Dim

Daeth y cyfarfod i ben am 18:00